

**Datganiad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd o dan adran 13(5) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010**

Ar 24 Medi 2020, gwnaeth Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ("y Bwrdd") benderfyniad sy'n gwneud darpariaeth o dan adrannau 20(1) a 53(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Penderfyniad y Bwrdd yw dileu paragraff 3.2.1 o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2020-21 ("y Penderfyniad"), sy'n golygu na fydd cyflogau'r Aelodau yn cael eu mynegeo cyn dechrau'r Chweched Senedd.

Mae hyn yn disodli'r ddarpariaeth bresennol, sef bod tâl Aelodau a deiliaid swyddi yn cael ei addasu ym mis Hydref 2020 gan +4.4. y cant, ac ar ôl hynny ym mis Ebrill bob blwyddyn gan y newid yn Enillion Canolrif gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru, yn ôl yr Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion (ASHE), rhwng mis Mawrth y flwyddyn honno a mis Mawrth y flwyddyn flaenorol.

O dan amgylchiadau arferol, ni chaiff y Bwrdd wneud mwy nag un penderfyniad mewn perthynas â chyflogau Aelodau a deiliaid swyddi sydd i fod yn effeithiol yn ystod pob un o dymhorau'r Senedd (fel yr amlinellir yn adran 13(3) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (Mesur 2010). Mae'r cyfyngiad hwnnw hefyd yn gymwys i benderfyniad sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer talu cyflogau i Brif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion Cymru.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod mai dyma'r trydydd penderfyniad a fydd yn effeithiol yn ystod tymor y Senedd hon. Yn unol ag adran 13(4) o Fesur 2010, mae'r Bwrdd o'r farn bod yna amgylchiadau eithriadol sy'n golygu ei bod yn gyfiawn ac yn rhesymol i'r cyfyngiadau a osodir gan adran 13(3) o Fesur 2010 beidio â bod yn gymwys.

Mae'r Bwrdd wedi ystyried y sefyllfa sy'n esblygu'n gyflym o ganlyniad i bandemig Covid-19 ac mae o'r farn bod y sefyllfa honno yn amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud hi'n gyfiawn ac yn rhesymol i newid y Penderfyniad ar gyfer 2020-21.

Yn benodol, roedd y Bwrdd wedi talu sylw i'w egwyddorion ei hun fel y'u nodwyd yn strategaeth 2017 sydd wedi llywio ei waith drwyddi draw:

- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Aelodau;
- mae'n rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru; a
- rhaid i'r system o gymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

## BWRDD TALIADAU REMUNERATION BOARD

Mae'r Bwrdd yn cydnabod rôl bwysig yr Aelodau wrth gynrychioli eu hetholwyr a'u hymrwymiad i gyflawni eu dyletswyddau yn y cyfnod anodd hwn. Ar yr un pryd, bu'r Bwrdd yn ystyried effaith economaidd y pandemig Covid-19 yng Nghymru. Bydd y rhagolygon economaidd hynod anffafriol hyn yng Nghymru yn golygu y bydd llawer o weithwyr yn dioddef caledi, boed hynny oherwydd cyflogau is neu ddiweithdra. Mae'r Bwrdd o'r farn bod y darlun economaidd wedi newid yn sylweddol ers i'r Bwrdd adolygu'r mater ym mis Mawrth ar ddechrau'r pandemig. Mae'n dod yn gliriach y bydd y pandemig yn cael effeithiau tymor hwy ac o ystyried y cyd-destun iechyd cyhoeddus sydd wedi newid yn gyflym yn ystod y tair wythnos ddiwethaf, mae'n debygol iawn bellach y bydd y rhagolygon economaidd gwael iawn yn parhau am y chwe mis nesaf.

O ystyried hyn, cred y Bwrdd y byddai caniatáu unrhyw gynnydd yn y cyflogau mewn amgylchiadau o'r fath yn amhriodol ac yn anodd ei gyfiawnhau. Byddai'n groes i egwyddor y Bwrdd fod yn rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru. Mae hefyd o'r farn bod yr egwyddor hon yn bwysig wrth gynnal hyder y cyhoedd ar adeg pan fo cynifer o heriau digynsail yn wynebu'r wlad.

Mae'r Bwrdd yn glir na fydd y penderfyniad hwn yn achub y blaen ar unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch mynegeo cyflogau'r Chweched Senedd.

Mae'r datganiad hwn yn ddatganiad ysgrifenedig i Gomisiwn y Senedd at ddibenion adran 13(5) o Fesur 2010.